Cynadleddau grwp i'r teulu

Egwyddorion a chanllawiau ymarfer

Barnardo's
CYMRU
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

frG

NCH

© Barnardo's/ Grwp Hawliau'r Teulu/ NCH

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw un gopïo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio ar system adferadwy, na'i drosglwyddo ar unrhyw ffurf nac mewn unrhyw ffordd heb gael caniatâd y cyhoeddwyr yn gyntaf.

Cyhoeddwyd i ddechrau yn 2002 gan Barnardo's/ Grwp Hawliau'r Teulu/ NCH

Tanners Lane
Barkingside
Ilford
Essex IG6 1QG

Rhif cofrestru elusen 216250

Mae cofnod catalog ar gyfer y llyfr hwn ar gael o'r Llyfrgell Brydeinig

ISBN 0 902046 82 9

DIOLCHIADAU

Lluniwyd ac ysgrifennwyd gan Patrice Lawrence a Jane Wiffin o'r Grwp Hawliau'r Teulu mewn cydweithrediad ag aelodau'r Rhwydwaith Cynadleddau Grwp i'r Teulu. Hoffem estyn diolch arbennig i'r aelodau hynny o'r Rhwydwaith Cynadleddau Grwp i'r Teulu a gyfrannodd drwy fod yn bresennol mewn cyfarfodydd neu drwy roi eu hymateb ar ddrafftiau cynharach.

SYLWER

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cyfeirio bob amser at gynadleddau grwp i'r teulu. Cyfeiria rhai gwasanaethau at gyfarfodydd grwp i'r teulu. Mae modd cyfnewid y ddau enw hwn. Mae'r egwyddorion a'r canllawiau ymarfer yn cyfeirio i'r un graddau at gynadleddau grwp i'r teulu ac at gyfarfodydd grwp i'r teulu.

Cyflwyniad

Bellach, cynigir cynadleddau grwp i'r teulu mewn amgylchiadau amrywiol iawn pan fydd yn rhaid gwneud penderfyniadau am blant.

Mae awdurdodau lleol a phrosiectau yn amrywio wrth ddarparu cynadleddau grwp i'r teulu ac nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael eto ym mhob ardal. Canolbwyntia rhai prosiectau ar gynnig cynadleddau grwp i'r teulu pan fydd y plant dan ofal neu pan geir pryderon ynghylch amddiffyn plant. Mae prosiectau eraill yn gweithredu yn ehangach. Mae yna hefyd brosiectau a ariannir gan addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, y gyllideb adfywio sengl a thrwy ffynonellau eraill.

Ysgrifennwyd yr egwyddorion a'r canllawiau ymarfer a geir yn y llyfryn hwn er mwyn sicrhau bod teuluoedd, gan gynnwys y plant a'r bobl ifanc, yn gwybod pa fath o wasanaeth y gallant ei ddisgwyl pan fyddant yn mynd i gynhadledd grwp i'r teulu, ni waeth beth yw'r rhesymau dros gynnal y gynhadledd grwp i'r teulu ac ni waeth pwy sy'n ei threfnu. Rhaid i'r sefydliadau sy'n darparu neu'n cynnig y gwasanaeth hwn hefyd wybod pa safonau gwasanaeth y dylent ymdrechu i'w darparu.

Mae'r llyfryn hwn hefyd yn arweiniad i asiantaethau, i'w galluogi i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth o safon dda i deuluoedd. Rhaid i'r holl sefydliadau sy'n darparu cynadleddau grwp i'r teulu gefnogi'r egwyddorion hyn. Rydym yn cydnabod na fydd yr holl sefydliadau sy'n darparu cynadleddau grwp i'r teulu yn gallu bodloni'r safonau a bennir yn y canllawiau ymarfer. Dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i sefydliadau gydnabod hyn a cheisio bodloni'r safonau ymarfer yn y dyfodol.

Ymgynghorwyd â'r teuluoedd a fu mewn cynhadledd grwp i'r teulu, ynghyd â'r sefydliadau a'r unigolion sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth, wrth lunio'r egwyddorion a'r canllawiau ymarfer hyn. Rydym wrth ein bodd bod yr Adran Iechyd, Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol hefyd wedi croesawu'r egwyddorion a'r canllawiau ymarfer hyn a'u bod yn gefnogol iddynt.

Cynigir cynadleddau grwp i'r teulu hefyd ym maes cyfiawnder yr ifanc. Er bod yr egwyddorion a'r canllawiau ymarfer yn berthnasol i'r cynadleddau hyn, caiff deunydd ychwanegol ei lunio i ddelio â sefyllfa dioddefwyr-mae cyfraniad dioddefwyr yn holl bwysig i gynadleddau grwp i'r teulu ym maes cyfiawnder yr ifanc.

Gobeithiwn y bydd yr egwyddorion a'r canllawiau ymarfer yn ddefnyddiol i'r teuluoedd sy'n dod i gynhadledd grwp i'r teulu ac i bawb sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth.

Robert Tapsfield
Prif Weithredwr
Grwp Hawliau'r Teulu

Beth yw cynhadledd grwp i'r teulu?

Mae pob teulu yn unigryw gyda'i ddiwylliant, ei bersonoliaethau, ei ddeinameg personol a'i hanes ei hun. Mae pob teulu yn wynebu problemau o bryd i'w gilydd. Gellir datrys rhai sefyllfaoedd anos sy'n ymwneud â phlant yn rhwyddach gyda help gan berthnasau a chyfeillion, a bydd ar eraill hefyd angen help gan y gwasanaethau iechyd, yr adran addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, neu gan asiantaethau eraill.

Mae cynadleddau grwp i'r teulu yn ffordd o roi cyfle i deuluoedd ddod at ei gilydd a cheisio gwneud y cynllun gorau posib ar gyfer y plant.

Aelodau'r teulu, ac nid y bobl broffesiynol, sy'n gwneud y penderfyniadau mewn cynhadledd grwp i'r teulu. Yma, mae'r fam neu'r tad neu'r fodryb neu'r taid a'r plentyn neu'r person ifanc a gweddill y teulu yn dod at ei gilydd i siarad, i wneud cynlluniau ac i benderfynu ar sut i ddatrys y sefyllfa.

Cynadleddau grwp i'r teulu - y model

Sut y caiff cynhadledd grwp i'r teulu ei sefydlu a phwy sy'n gwneud beth?

CAM 1 CYFEIRIO

- Bydd aelodau'r teulu a staff y sefydliad dan sylw yn cytuno bod yn rhaid gwneud cynllun ar gyfer plentyn neu berson ifanc.
- Penodir cydlynydd annibynnol i weithio gyda'r teulu i drefnu'r cyfarfod.

CAM 2 PARATOI AR GYFER Y CYFARFOD

- Mae'r cydlynydd, law yn llaw â'r plentyn, y person ifanc a'r cynhalwyr agosaf, yn dynodi rhwydwaith y teulu; gall hwn gynnwys cyfeillion agos.
- Mae'r cydlynydd yn dosbarthu gwahoddiadau ac yn cytuno ar leoliad, dyddiad ac amser ar gyfer y gynhadledd.
- Bydd y cydlynydd yn cysylltu gydag aelodau'r teulu a'r cyfeillion a wahoddir i'r gynhadledd, ac yn rhoi gwybod iddynt paham y trefnwyd y cyfarfod ac yn trafod unrhyw bryderon neu gonsyrn sydd ganddynt.

CAM 3 Y CYFARFOD

a) Rhoi gwybodaeth

Dyma pa bryd y bydd staff yr asiantaethau yn rhoi i'r teulu y wybodaeth sydd ganddynt hwy am y plentyn neu'r person ifanc ac am y gwasanaethau, yr adnoddau a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Bydd y cydlynydd yn cadeirio'r rhan hon o'r cyfarfod.

b) Amser preifat i'r teulu

Nid yw'r staff na'r cydlynydd yn bresennol yn ystod y rhan hon. Caiff aelodau'r teulu amser i siarad ymysg ei gilydd a tharo ar gynllun a fydd yn rhoi sylw i'r pryderon a godwyd gan y staff yn Rhan 1.

c) Cytuno ar y cynllun

Bydd y cydlynydd a'r staff yn ail-ymuno â'r teulu er mwyn clywed cynllun y teulu. Trafodir unrhyw wasanaethau neu gefnogaeth sy'n ofynnol gan yr asiantaethau i wneud i'r cynllun weithio. Dylai'r asiantaethau gytuno ar y cynllun oni bai ei fod yn rhoi'r plentyn neu'r person ifanc mewn perygl o niwed difrifol. Bydd pawb yn penderfynu sut y byddant yn edrych i weld a yw'r cynllun yn gweithio a beth y byddant yn ei wneud os nad yw'n gweithio.

CAM 4 ADOLYGU'R CYNLLUN

Yn aml, trefnir cynhadledd grwp i'r teulu neu gyfarfod arall er mwyn bwrw golwg ar y cynllun i weld sut y mae'n gweithio ac er mwyn gwneud cynlluniau newydd os oes angen.

Egwyddorion a Chanllawiau Ymarfer

Bwriedir yr Egwyddorion a'r Canllawiau Ymarfer canlynol i roi gwybod i deuluoedd beth y gallant ei ddisgwyl o gynhadledd grwp i'r teulu. Mae hefyd yn arweiniad pwysig i asiantaethau sy'n cynnig cynadleddau grwp i'r teulu neu sy'n gweithio gyda chynadleddau grwp i'r teulu, oherwydd bydd yn eu galluogi i weld a ydynt yn rhoi gwasanaeth o safon i deuluoedd.

Mae'r **Egwyddorion** yn disgrifio'r hyn y dylai teuluoedd ei ddisgwyl.

Mae'r **Canllawiau Ymarfer** yn disgrifio sut y caiff yr egwyddorion eu cyflawni.

Egwyddor 1 Mae gan y teuluoedd yr hawl i gael gwybodaeth glir, addas am drefn cynadleddau grwp i'r teulu.

Ymarfer

a) Rhaid rhoi gwybodaeth glir i'r teuluoedd am yr hyn ydy cynhadledd grwp i'r teulu a pham y cawsant gynnig cynhadledd grwp i'r teulu.

b) Rhaid rhoi gwybod i'r teuluoedd am amserlenni ac unrhyw oedi posib.

c) Rhaid i'r wybodaeth fod ar gael mewn ffordd sy'n bodloni anghenion y teulu.

ch) Rhaid dweud wrth bob aelod o'r teulu a wahoddir i'r gynhadledd pwy y dylent gysylltu ag ef/hi os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am y broses ac am sut i wneud cwyn.

Egwyddor 2 Mae gan y teuluoedd yr hawl i fod yn gysylltiedig â'r gwaith o gynllunio'r cyfarfod.

Ymarfer

a) Pryd bynnag y bo hynny'n bosib, dylai'r cydlynwyr adlewyrchu'r gymuned leol a bydd y teuluoedd yn cael cynnig cydlynydd sy'n siarad eu hiaith ac sy'n deall y modd y mae credoau crefyddol, traddodiadau diwylliannol ac elfennau eraill o'u ffordd o fyw yn dylanwadu ar y modd y mae'r teulu'n gweithredu.

b) Bydd cydlynydd, sydd yn annibynnol, yn gweithio gyda'r teulu i drefnu'r gynhadledd grwp i'r teulu. Mae 'annibynnol' yn golygu na fu ac na fydd ef/hi yn gysylltiedig ag unrhyw benderfyniadau a wneir am y plentyn.

c) Cynhelir y cyfarfod ar amser, dyddiad ac mewn man y mae'r teulu yn cytuno arno.

ch) Rhaid i'r oedolion a'r bobl ifanc roi caniatâd i'r wybodaeth a ddelir gan yr asiantaethau gael ei rhannu yn y cyfarfod.

d) Bydd y cydlynydd yn gweithio gyda'r teulu a'r person ifanc i benderfynu pwy a ddylai fod yn y cyfarfod.

dd) Y teulu a fydd yn penderfynu pa iaith a ddefnyddir yn y gynhadledd grwp i'r teulu, a bydd cyfieithwyr ar gael i bobl eraill sy'n bresennol fel bo'r angen.

e) Efallai y bydd y cydlynydd yn penderfynu peidio â chynnwys aelodau unigol o'r teulu yn y cyfarfod os bydd yna bryderon y gallai eu presenoldeb beryglu diogelwch unrhyw un.

Egwyddor 3 Mae gan aelodau'r teulu yr hawl i gael eu cydnabod fel y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau ym mhroses y gynhadledd grwp i'r teulu.

Ymarfer

a) Rhaid i'r asiantaeth a gyfeiriodd y teulu ar gyfer gynhadledd grwp i'r teulu fod yn sicr o ba benderfyniadau, os o gwbl, na allant eu cefnogi a rhaid rhoi rhesymau am hyn.

b) Rhaid cynnig rhywun i helpu'r plentyn neu'r person ifanc, ac unrhyw aelod arall o'r teulu sydd eisiau hynny, i wneud ei gyfraniad drwy gydol y broses. Gall y person hwn gael ei alw'n eiriolwr neu'n gefnogwr, a gall fod yn rhywun oddi mewn i rwydwaith y teulu neu'n rhywun y tu allan i'r teulu. Ni fydd yn rhywun a all wneud penderfyniadau am y teulu.

c) Rhaid rhoi gwybodaeth berthnasol, ffeithiol a di-jargon i'r teulu am bryderon yr asiantaethau ac am yr adnoddau sydd ar gael.

ch) Rhaid rhoi gwybodaeth ysgrifenedig am bryderon yr asiantaethau i'r rhieni o leiaf 24 awr cyn y gynhadledd.

d) Telir costau teithio rhesymol ac unrhyw dreuliau eraill i'r aelodau hynny o'r teulu sydd ei angen.

dd) Bydd aelodau'r teulu yn cael cyfle i rannu eu pryderon a chael atebion i'w cwestiynau cyn y cyfarfod ac yn y cyfarfod ei hun.

e) Bydd aelodau'r teulu na all fod yn bresennol am unrhyw reswm yn cael cefnogaeth i gyfrannu mewn ffyrdd eraill.

Egwyddor 4 Mae gan y teuluoedd yr hawl i gael amser preifat i'r teulu ac amgylchedd cefnogol a diogel lle gallant wneud cynlluniau.

Ymarfer

a) Rhaid rhoi amser i'r teuluoedd gyfarfod ar eu pen eu hunain heb i'r cydlynydd na staff yr asiantaethau fod yn bresennol.

b) Rhaid i'r cydlynydd sicrhau bod man ac amser addas yn cael ei neilltuo, gyda lluniaeth addas, er mwyn i'r teulu wneud penderfyniadau.

c) Rhaid i ddarpariaeth gofal plant fod ar gael yn ôl y gofyn.

ch) Bydd y cydlynydd yn gweithio gyda phawb i'w galluogi i wneud cynllun sy'n bodloni anghenion y plentyn.

Egwyddor 5 Mae gan y teuluoedd yr hawl i gael eraill i gytuno gyda'u cynlluniau, os ydynt yn ddiogel, a chael yr adnoddau i'w rhoi ar waith.

Ymarfer

a) Rhaid i'r asiantaeth sy'n cyfeirio gytuno i gefnogi cynlluniau'r teulu oni bai eu bod yn rhoi'r plentyn mewn perygl o niwed, a rhaid i'r asiantaeth ddarparu adnoddau rhesymol er mwyn eu gweithredu.

b) Rhaid i holl aelodau'r teulu a'r asiantaethau, sy'n bresennol yn y gynhadledd, gael copi o'r cynllun cyn pen amser penodol. Bydd y cynllun yn cynnwys manylion pa adnoddau y mae ar y teulu eu hangen a sut y caiff y cynigion yn y cynllun eu gweithredu a'u monitro.

c) Rhaid i'r teulu, yr asiantaeth sy'n cyfeirio a'r cydlynydd gytuno ar sut y caiff y cynllun ei adolygu ac a ddylid cynnal adolygiad dilynol, a phwy a fydd yn gyfrifol am wneud i hyn ddigwydd.

ch) Dylid gwneud pob ymdrech i ymateb i gynllun y teulu yn y cyfarfod. Rhoddir gwybod i'r teulu pryd, sut a phwy a fydd yn rhoi ymateb ysgrifenedig iddynt os na ellir cytuno ar y cynllun, neu ar rai o'r adnoddau, yn y gynhadledd.

d) Rhaid i'r asiantaethau, y mae'n rhaid cael eu cefnogaeth er mwyn gweithredu'r cynllun, ymateb cyn pen deng diwrnod i ddweud a allant roi'r gefnogaeth y gofynnir amdani ac, os oes angen, pa mor hir a gymer y gefnogaeth hon i'w darparu.

Egwyddor 6 Mae gan y teuluoedd yr hawl i fod yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu cynadleddau grwp i'r teulu.

Ymarfer

a) Caiff pob teulu y cyfle i roi ei farn am y gwasanaeth a gafodd.

b) Pryd bynnag y bo hynny'n bosib, rhoddir gwybod i'r teuluoedd am unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i'w sylwadau.

c) Rhaid i'r teuluoedd gael y cyfle i gael cysylltiad gyda theuluoedd eraill a ddefnyddiodd y gwasanaeth.

ch) Rhaid i'r teuluoedd sydd wedi bod mewn cynadleddau grwp i'r teulu gael y cyfle i fod yn gysylltiedig â'r gwaith o lunio polisïau ac ymarfer ar gyfer cynadleddau grwp i'r teulu.

Cynhelir y Rhwydwaith Cynadleddau Grwp i'r Teulu gan y Grwp Hawliau'r Teulu. Nod y Rhwydwaith yw hybu a chefnogi datblygiad cynadleddau grwp i'r teulu. Mae'r rhwydwaith yn dod â phawb sydd â diddordeb mewn cynadleddau grwp i'r teulu at ei gilydd, yn llunio cyhoeddiadau am gynadleddau grwp i'r teulu, gan gynnwys cylchlythyr dair gwaith y flwyddyn a fideo, mae'n trefnu cynadleddau a seminarau, yn darparu hyfforddiant, ac yn gweithio gydag eraill i hyrwyddo cynadleddau grwp i'r teulu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i ymuno â'r Rhwydwaith Cynadleddau Grwp i'r Teulu, neu i gael rhagor o wybodaeth am gynadleddau grwp i'r teulu, gan gynnwys fideos, cysylltwch â'r Grwp Hawliau'r Teulu, The Print House, 18 Ashwin Street, Llundain E8 3DL. Ffôn 020 7923 2628, Ffacs 020 7923 2683, e-bost office@frg.org.uk. Gwefan www.frg.org.uk .

Mae rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn ar gael oddi wrth: Barnardo's Childcare Publications, Barnardo's Trading Estate, Paycocke Road, Basildon, Essex SS14 3DR. Ffôn: 01268 520224 Ffacs: 01268 284804

Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG **www.barnardos.org.uk**
Rhif cofrestru elusen 216250

Barnardo's

CYMRU

RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Barnardo's, Tanners Lane, Barkingside, Essex IG6 1QG
Tel: 020 8550 8822 Fax: 020 8551 6870 **www.barnardos.org.uk**

4998|C02 Rhif cofrestru elusen 216250